Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# **Amserlen ar gyfer ystyried:** Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)

Rhagfyr 2021

Ar 13 Rhagfyr 2021, cyflwynwyd y Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) yn y Senedd.

Ar 23 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cyllid i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 30 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, ar amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, gan gytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 8 Ebrill 2022.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 10 Mehefin 2022, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.